# Cofnodion

# Cyfarfodydd y Cyngor Ysgol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | **03/10/2023** |
| Amser: | 10:00 |
| Yn bresennol: | Myfi, Cian, Luc, Evie, Harper a Greta ( a Corey-James) |
| Ymddiheuriadau: | / |

| Agenda | Cofnodion |
|---|---|
| Syniadau ar gyfer ffocws y flwyddyn | Luc – Eisiau gwella amser cinio. Mae'r rhes yn rhy hir a dyw rhai disgyblion ddim yn cael digon o amser I fwyta cinio.<br><br>Myfi – Awyddus I greu papur newydd ysgol. Beth am gynnwys hwn fel gweithgaredd Gwener Gwych?<br><br>Corey – Eisiau cael 'Buddy bench' ar yr iard er mwyn helpu disgyblion sydd heb ffrindiau. Mr Rees I ofyn wrth y Gymdeithas Rhieni am gefnogaeth.<br><br>Cian – Awyddus I brynu goliau pel-droed newydd.<br><br>Clybiau amser cinio – Roedd y disgyblion yn mwynhau Clwb Gwyddbwyll y llynedd ac yn awyddus I ail-ddechrau clybiau yn y Clwb Cwtsh.<br><br>Aeth Mr. Rees a'r Cyngor I weld y llyfrgell. Mae angen gwario gweddill arian y Gymdeithas Rhieni. Does dim celfi yn y llyfrgell eto. Mae'r Cyngor yn awyddus I brynu 'bean bags', carped, seddi cyfforddus ac ardal tawel tu allan.<br><br>Iard Chwarae – Awyddus I ail-beintio'r 'hop scotch' a'r sgwar cant! |

